



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

## THE HILL HOUSE:

Cydweithredu ym meysydd Dogfennu Digidol ac Ymchwilio Gwyddonol

Sophia Mirashrafi: Swyddog Prosiect Digidol, [Historic Environment Scotland](#) and [Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban](#)

The Hill House yw un o weithiau mwyaf eiconig Charles Rennie Mackintosh. Sut bynnag, oherwydd ei ddefnydd arbrolfol o rendrad sment mewn hinsawdd wleib barhaus yr Alban, mae rhwystro dŵr rhag treiddio wedi bod yn broblem ers i'r tŷ gael ei adeiladu yn 1901-3.



### 1. Golwg Allanol

Mae timau Historic Environment Scotland (HES) ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban wedi ymuno â'i gilydd mewn prosiect cydweithredol dwy flynedd o hyd a fydd yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r dechnoleg ac adnoddau digidol diweddaraf i ymchwilio i'r

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

rhan hynod bwysig hon o dreftadaeth yr Alban, ei dogfennu, a helpu i'w diogelu yn y pen draw.

Mae dogfennu safle'n ddigidol yn creu darlun 3D ohono ar adeg benodol yn ei hanes, a gall fod o gymorth mewn llawer ffordd, o ddiogelu a rheoli'r safle i ddehongli ac addysg. Mae cyfuno'r set ddata 3D hon â thermograffi a mapio lleithder yn mynd â hyn gam ymhellach, gan ein galluogi i archwilio a delweddu'n llawn symudiad dŵr i mewn i'r adeilad drwy'r ffabrig sment mewn gofod 3D.

Yn y cyflwyniad hwn, byddwn yn trafod y llif gwaith sy'n gysylltiedig â digido safle mor unigryw, ac sy'n arwain yn y pen draw at greu model 3D ffotorealistic a fydd yn sylfaen ar gyfer y prosiect cyfan. Disgrifir hefyd y gwaith gyda thîm Cadwraeth Wyddonol HES i ymgorffori ei arolwg gwyddonol yn y model 3D. Yn olaf, amlinellir sut y bydd y prosiect yn datblygu yn y dyfodol.



## 2. Golwg o'r De: Delwedd Thermol

Mae The Hill House yn orddirlawn, ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cymryd camau cadarn i'w amddiffyn rhag hinsawdd yr Alban. Wrth i'r tŷ sychu, dyma'r amser i weithredu. Bydd y gwaith dogfennu digidol gan y bobl sy'n gyfarwydd â'r adeilad, ynghyd â'r gwaith ymchwilio gwyddonol gan y gwyddonwyr sy'n gallu ei ddarllen, o gymorth amhrisiadwy o ran deall, diogelu a rheoli campwaith Mackintosh yn y dyfodol.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

## Bywgraffiad

Sophia Mirashrafi yw Swyddog Prosiect Digidol The Hill House. Mae hi'n cael ei chyflogi ar y cyd gan Historic Environment Scotland ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban. Cyn hyn, yn 2018, hi oedd yr Intern Arloesi Digidol yn Historic Environment Scotland. Mae ganddi radd MSc mewn Treftadaeth Ddigidol o Brifysgol Caerefrog a gradd MA(Anrh) mewn Hanes ac Archaeoleg yr Oesoedd Canol o Brifysgol St Andrews. Mae hi'n cymryd diddordeb neilltuol mewn defnyddio technegau arloesol a thechnolegau digidol i adrodd storïau cymhleth am ein gorffennol.